**Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Cymuned Ciliau Aeron a gynhaliwyd ar nos Iau 9fed Mehefin 2022 am 7.30 pm yn Neuadd Bentref Cilcennin**

Yn bresennol: Y Cynghorydd Iwan Thomas (Cadeirydd), y Cynghorwyr Michelle Davies, Robert Davies, Helen Evans, Arwel Jones ac Alwen Thomas.
Y Cynghorydd Sir Marc Davies
Denfer Morgan (Clerc).

**18 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Nigel Davies a Ray Williams am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.

**19 Personol**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at lwyddiant ysgubol y digwyddiad a drefnwyd ar safle'r Ysgol Gynradd yn ystod penwythnos y Jiwbili yng Nghilcennin ac estynnwyd llongyfarchiadau'r Aelodau i'r trefnwyr.

**20 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo, fel rhai cywir, cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 12fed Mai 2022.

**21 Materion yn Codi o'r Cyfarfod**

Cofnod 13c) Gollyngiadau ger Avicenna - nodwyd for y Clerc wedi cyfeirio'r mater at y Cyngor Sir a gofynwyd iddo ei ddilyn i fyny.

**22 Materion Cyllidol – Talu anfonebau**

**PENDERFYNWYD** talu'r canlynol:

*Cyflog y Clerc (Ebr-Mai-Meh)**
Denfer Morgan - £320.83
CThEM (TWE) - £80.21

**23 Cyflog y Clerc**

Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Clerc ar ddyfarniad Cyflogau Cenedlaethol 2021-22 a dderbyniwyd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ym mis Mawrth 2022.

**PENDERFYNWYD:**

i) cytuno i ôl-weithredu Dyfarniad Cyflogau Cenedlaethol ar gyfer 2021-22;
ii) cynnwys y dyledion cyflog am yr holl flwyddyn yn nhaliad cyflog Mehefin 2022 y Clerc, yn y symiau canlynol:

Cyflog net £20.73
TWE £5.19

iii) cytuno gweithredu'r dyfarniadau cyflogau cenedlaethol ar gyfer y Clerc yn y dyfodol cyn gynted â'u bod yn cael eu cyhoeddi.

**24 Cyfrifon Blynyddol 2021-22**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r Cyfrifon Blynyddol 2021-22 fel a archwiliwyd gan yr Archwilydd Mewnol a **PHENDERFYNWYD** eu cymeradwyo a'u hanfon at Archwilio Cymru.

**25 Materion Cynllunio**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r mater isod a **PHENDERFYNWYD** nodi'r gwybodaeth a dderbyniwyd'

Ymgynghoriad Cyn-cyflwyno Cais: Newid Mast Tŷ Mawr.

**26 Adeilad Ysgol Cilcennin**

Bu rhaid i'r Clerc hysbysu'r Aelodau unwaith yn rhagor na dderbyniwyd unrhyw wybodaeth oddi wrth Adran Stadau'r am gynlluniau'r Cyngor Sir ar gyfer yr adeilad. Cyfeiriwyd at y penodiadau i'r Cabinet yn dilyn yr etholiad a **PHENDERFYNWYD** ofyn am gymorth gan yr Aelod Cabinet newydd ynghylch y mater.

**27 Mynwent Eglwys Cilcennin**

Nodwyd nad oedd gwybodaeth wedi cael ei dderbyn er i'r Clerc ofyn unwaith yn rhagor am ddiweddariad erbyn cyfarfod heno.

**PENDERFYNWYD** gofyn am gymorth gan y Parch. Wyn Maskell ac Elin Jones AS a Ben Lake AS yn y mater, os oes angen.

**28 Cyfethol Aelodau i'r Cyngor (Ward Cilcennin)**

Esboniodd y Clerc bu camgymeriad gyda'r broses o gyhoeddi'r hysbysiad a **PHENDERFYNWYD** gynnal y broses cyfethol o'r newydd gyda dyddiad cau ar 30ain Mehefin ac i drafod y ceisiadau a ddaw i law yng nghyfarfod 7fed Gorffennaf.

Daeth y cyfarfod i ben am 8:30pm